Cerdyn myfyriwr

Rhoddwr organau yn rhoi bywyd i lawer o bobl eraill

Roedd diddordeb gan Philip Traher erioed mewn rhaglenni teledu meddygol, ac fe wyddai fod ei rieni o blaid rhoi organau.

Bu farw Philip mewn damwain ar y ffordd pan oedd ddim ond yn 13 oed. Roedd ei rieni, David ac Anthea, yn drist dros ben, ond roedden nhw'n gwybod y byddai eu mab wedi dymuno rhoi ei organau fel y byddai rhywun arall yn cael cyfle i fwynhau ansawdd bywyd gwell.

> "Ni fyddai Philip byth yn cadw pethau nad oedd eu hangen arno bellach, roedd bob amser yn rhoi pethau i rywun arall pan oedd wedi gorffen â nhw.
>
> Roedd hwn yn rheswm arall pam ein bod yn gwybod y byddai Philip wedi dymuno rhoi ei organau."

Rhieni Philip

Bu organau Philip o les i chwe pherson a defnyddiwyd ei gornbilennau hefyd i adfer golwg rhywun. Rhoddwyd ei galon i ddyn 57 oed a, 10 mlynedd yn ddiweddarach, mae rhieni Philip yn dal i gwrdd â'r derbynnydd yn rheolaidd.

Gallwch ddarllen mwy o storïau gwir ar:
www.giveandletlive.co.uk

NHS
Gwaed a Thrawsblaniadau

Ffeil ffeithiau

1. Mae trawsblaniadau yn un o lwyddiannau mwyaf meddygaeth fodern, ond maent yn dibynnu'n llwyr ar haelioni rhoddwyr a'u teuluoedd.

2. Heddiw mae ar fwy na 10,000 o bobl yn y DU angen trawsblaniad organ a allai arbed eu bywydau neu eu gwella'n sylweddol, ond dim ond tua 3,000 trawsblaniad a wneir bob blwyddyn.

3. Y prif reswm am y prinder rhoddwyr yw nad yw digon o bobl wedi trafod eu dymuniadau gyda'u teuluoedd.

Trafodaethau byw

Dewiswch un neu fwy o'r datganiadau canlynol i'w trafod fel grŵp. Ysgrifennwch y ddadl dros ac yn erbyn y datganiadau a phenderfynwch ar ba ochr yr ydych chi. A yw pob aelod o'ch grŵp yn cytuno?

- "Dylid gorfodi pawb i ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG."
- "Fy nghorff i ydy e' a gallaf wneud beth a fynnaf gydag ef."
- "Os yw teulu wedi bod yn ddigon caredig i gytuno i roi organau un o'u hanwylion ar ôl eu marwolaeth, dylent gael gwobr ariannol."*

Rhoi eich hun yn eu hesgidiau nhw

- Nid oes isafswm oedran ar gyfer ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG, ond dylai unrhyw un sydd am ymuno â'r Gofrestr drafod y peth gyda'u teulu yn gyntaf – yn enwedig os ydynt yn blentyn yn llygaid y gyfraith. Gyda phartner, ymarferwch sgwrs rhwng person ifanc yn ei arddegau a'i rieni ynghylch ymuno â'r Gofrestr.
- Dychmygwch mai chi yw'r cydlynydd trawsblaniadau yn yr ysbyty lle bu farw Philip. Sut byddech yn trafod gyda'i rieni y syniad o ddefnyddio'i organau ar gyfer trawsblaniadau ar yr amser anodd hwn?
- Byddwch yn bryf ar y pared wrth i rieni Philip, David ac Anthea, gwrdd â'r dyn a dderbyniodd calon eu mab 10 mlynedd yn ôl. Sut sgwrs fyddent yn ei chael?

*Yn y DU, mae'n anghyfreithlon prynu neu werthu organau.